# PRYDDEST

AR Y DIWEDDAR

# BARCH. DANIEL ROWLANDS,

LLANGEITHO.

GAN

D. BRYTHONFRYN GRIFFITHS,
CASTELLNEWYDD-EMLYN.

---

CASTELLNEWYDD-EMLYN:
ARGRAFFWYD GAN JOHN RICHARD DAVIES.

PRIS TAIR CEINIOG.

464.6W

# AT HOLL FEIRDD A LLENORION GWALIA.

FONEDDIGION,—

Cynygiwyd gwobr gan Bwyllgor Eisteddfod Aberaeron, a gynaliwyd Gorphenaf 1864, am y Bryddest oreu ar y diweddar BARCH. D. ROWLANDS. Anturiais i'r ymdrechfa, a chefais fy rhesu yn ail yn y gystadleuaeth. Wele yn canlyn ddyfyniad o feirniadaeth Caledfryn :—"Walter Cradoc; y mae efe yn gafael yn ei destyn mewn modd dirodres, ac yn ei weithio allan gydâ deheurwydd yn llwybr newydd y Marwnadau Pryddestol diweddar. Gellid tybio ar ei waith nad oes unrhyw anhawsder ar ei ffordd. Y mae efe yn clirio y cwbl o'i flaen, ac yn rhoddi darlun da o Rowlands.' Os cyhoeddir yr un fuddugol, caiff y cyhoedd eto feirniadu. Gan nad wyf ond ieuanc yn y byd barddonol, hyderwyf na fyddwch yn draws wrthyf. Cefais lawer o bleser wrth ei chyfansoddi, a gobeithio y cewch chwithau radd o bleser a budd wrth ei darllen.

Eich ufudd wasanaethwr,

D. B. GRIFFITHS.

*Hyd.* 17, 1865.

# PRYDDEST.

O! Seion Duw, ti bendefiges nef,
Uwch ben dy swynion gwena engyl claer,
A syn ryfedda y seraphaidd lu;
Yn dywysoges ar dalaethau'r byd
Ti fyddi yn y man. Gwarogaeth lwyr
A delir it' gan bendefigion fyrdd;
Comisiwn gefaist gan y Dwyfol lŷs
I chwynu'r byd o ddrygfoes teulu dyn,
Arloesi'r anial a'r diffaethwch gwyllt,
A'i wneyd yn ardd o iraidd lysiau pêr.
Gwroniaid lu a fagwyd ar dy fron,
A derbyniasant ryw anfarwol faeth,
Nes tyfu'n gewri mewn ysprydol ddawn,
A gyru malldod i'r uffernol lŷs;
O flaen eu nerthoedd delwai'r fagddu fawr,
A phallai dewrder Luciffer ei hun;
I'w dirgel gelloedd ellyll ffoent mewn braw,
A thiriogaethau isaf Abred oent,
Yn diaspedain gan siomedig gri

Porthorion Anwn. Un o'r breiniol lu
Oedd efengylydd mawr Llangeitho; gwas
Gymhwyswyd âg ysprydoledig ddawn,
I gludo gwersi'r nef i euog fyd,
Nes gwneyd yn oddaeth blanigfeydd y fall,
A chreu chwyldroad yn ngwersyllfa'r ddraig.

O! Rowlands seraphaidd, nid rhaid wrth fanyl
rwydd,
Na meithder, er rhoddi darluniad o'th fri;
Acener dy enw, mae myrdd o galonau
Yn barod i dalu gwarogaeth i ti;
Cyn treiglir dy enw i gelloedd anghofrwydd,
Rhaid claddu y Wyddfa yn nhrochion y môr,
A chipio gan angeu holl blant ein haelwydydd
A chwalu colofnau creadigaeth ein Hior.

Cyplysir dy enw âg achub eneidiau,
A thywys trueiniaid at riniau y Groes,
Gwaredu yr euog o grafanc plâ angeu,
Lliniaru ei boenau, a symud ei loes;
Pan gleddir mewn anghof dan lwch y canrifoedd
Wag enwau archfilwyr barbaraidd y byd,
A'u mynor gof-feini yn garnedd, bydd enw
Apostol Llangeitho yn beraidd o hyd.

Bu Gwalia cyn yma'n ymffrostio mewn meibion
Fu'n addurn i grefydd, gwareiddiaeth, a moes,
Yn awyr ei bryniau y magwyd enwogion
A feddent athrylith i swyno yr oes:

Os teilwng y llenor y bardd a'r gwladgarwr
Yn mynwes y genedl gael parchus goffhad,
Ai tybed na ddylai'r seraphaidd bregethwr
Gael lle yn serchiadau a chofion ei wlad ?

Fe gysegrodd Dyddiwr Israel
Lawer llanerch îs y rhôd,
Yn ei weinidogaeth gyhoedd,
Er adferu damniol fod ;
Nazareth a Beth'lem ddinod
Cyn ei ddydd, sydd 'nawr yn un
O enwocaf drefi'r ddaear,
Pan y cofiom Fab y dyn.

Rowlands enwog ! anfarwolaist
Bantybeudy ; dyna'r lle
Y dechreuast ti anadlu
Yma'n faban îs y ne' ;
Er i'r anedd hen ymollwng,
A'r adeilad fyn'd yn garn,
Cofir Pantybeudy mwyach
Hyd agoriad llyfrau barn.

Rhyw gyfnodau auystyriol
Oedd blynyddau cyntaf oes
Efengylydd mawr Llangeitho
Cyn ei ddychwel at y Groes :
Rhyw ysgafnder anghrefyddol
Ymgartrefai yn ei fryd,

Hyd yr adeg fythgofiadwy
  Pan ddaeth at Waredwr byd.

Tua Llundain yn frwdfrydig
  Pan yn ugain oed yr aeth;
Megys plentyn oedd hyd yma
  'N nwyfus chwareu ar y traeth;
Moroedd gras a chariad Dwyfol
  Oent ddyeithr iddo ef;
Nid oedd eto yn brofiadol
  O achubol ddoniau'r nef.

Wedi derbyn urdd yn Llundain,
  Yn ei ol i Gymru daeth,
Heb un cyfnewidiad cyflwr,
  Heb argyhoeddiadol saeth;
Ystradffin a phlwyf Llangeitho
  Gawsant flaenffrwyth boreu'i ddawn;
Ond nid oedd ei enaid eto
  O'r ysprydol dân yn llawn.

Nid urdd, nid llais, ac nid galluoedd dyn
  A ddeffry yn ysprydol feirwon rai,
Rhaid wrth weinyddiaeth uwchddaearol Un,
  Er lladd y llygredd a dileu y bai;
Er doniau pregethwrol Rowlands fawr,
  Yr adeg grinllyd, ryfedd hon o'i oes,
Un chwa achubol nid ymwelai â'r llawr
  O gymydogaeth dylanwadau'r Groes.

Blaenpenal freintiwyd âg ysprydol ddawn
  Yn mherson Pugh, yr efengylydd dwys;
'Roedd enaid hwn o'r Dwyfol dân yn llawn,
  A thraethai eiriau'r nefoedd gydâ phwys:
I bwlpud llym y ddeddf esgynai ef,
  A chrochdaranai am fygythion Ior,
Y farn gyhoeddai mewn anofnus lef,
  Ac ingol boenau'r dialeddol fôr.

Enaid Rowlands a gynhyrfwyd
  Gan bregethau tanllyd Pugh,
Teimlai fod ei gyflawniadau
  Yn annheilwng iawn o Dduw;
Adfyfyriodd uwch ei gyflwr,
  Gwelwai mewn arteithiol gur,
Mewn ing enaid y gweddiai
  Am y dylanwadau pur.

Jones, Llanddowror, y pryd hwnw,
  Ddenai sylw'r wlad yn llwyr;
Swyn ei weinidogaeth rymus
  Doddai'r galon fel y cwyr:
I Landdewi,* mewn cyfyngder,
  Er ei wrando Rowlands aeth,
A derbyniodd cyn dychwelyd
  Yn ei fynwes finiog saeth.

Bu'r oedfa hon dan law fendithiol Iôr
  Yn offerynol i'w gyfnewid ef;

*Llanddewibrefi.

Fe yfodd yspryd y seraphaidd gôr,
A rhoddodd lam i ymyl porth y nef;
Eneiniol ddoniau y Dyddanydd ddaeth
Yn ffrwd lifeiriol idd ei fynwes drist,
Ac archoll ddofn yr argyhoeddiadol saeth
Wellhawyd gan gyfryngol angeu Crist.

Ar ol y cyfnod hwn, ei enaid ef
Fedyddiwyd â rhyw ddifrifoldeb mawr,
Pan welai yn doredig ddeddfau'r nef,
Ymchwelai 'i enaid llwythog hyd y llawr;
Gwel'd ynfyd weis y fagddu'n feiddgar lu,
Yn cyndyn frwydro â bwriadau 'i Dad,
Gan hwylio'n hyf tua thraethau'r oror ddu,
A wnai i'w galon waedu dros ei wlad.

Mewn nefol frwdfrydedd ymddringai i Sinai,
Brenindy y ddeddf fu ei wersyll yn awr,
Cyfleodd ei fegnyl ar lechwedd y mynydd,
Rhaiadrai y Dwyfol fygythion i lawr;
Agorai gilddorau ystordai dialedd,
Ymwthiai'r daranfollt andwyol o'i chell,
Ymholltiad byddarol tânbelau cyfiawnder,
Syfrdanai annuwiaid yn agos a phell.

Tânfflachiad y mellt, a chrochruad y daran,
A welid a glywid yn nerthoedd ei lef;
Darluniai berffeithrwydd dilychwin cyfiawnder,
A llymder dilaesu cyfreithiau y nef;

Fel taran ei floedd, ac fel trydan ei effaith,
  Y gwefrdân cyffroawl ysgydwai y wlad,
Cyniwair wnai'r Dwyfol ddylanwad trwy'r mil-
    oedd,
  Parlysid cythreuliaid, a chwelid eu brâd.

Gan ddiystyru gwrdd groeswyntoedd byd,
Fel rhyw freninlong ar y glasfôr pell,
Yn dewr farchogaeth yr ymchwyddawl dòn,
Aeth ynteu'n mlaen, a chawraidd ddringai dros
Wrthgloddiau cribog deflid ar ei ffordd;
Nid gŵg, nid ffrom, ae nid gwawdffrewyll mil,
A fedrai lethu ei arwrol fryd;
Estynai ambell offeiriedyn balch
Ei fys mewn gwawd at seraph mawr yr oes,
A gwŷr yr urdd a genfigenent wrth
Y Boanerges hwn; ond tremiai ef
Tudraw i hen awyrgylch niwlog byd,
Ac ymgartrefai yn mhalasdŷ Ior;
Ei ffydd wronaidd a ymfachai wrth
Sylfeini gorsedd dragywyddol nef;
Moeswersi gras oe'nt ddewis bynciai' i oes,
Ac arnynt beunydd ymsefydlai'i fryd.

Son am Rowlands a'i bregethau
  Ymledaenodd dros y wlad,
Cyrchai'r miloedd yno'i wrando
  Am ddarbodaeth cariad rhâd;

Holl ddelweddau deddfau'r nefoedd
Fyw ddarlunid ganddo ef,
Crynai'r euog yn ei ingoedd
Rhag dialedd barnol nef.

Daeth aml i adyn ar hynt i Langeitho
I wrando y seraph enynai'r fath gyffro,
A'i galon yn nythle i fydol syniadau,
Ac arwe o niwl yn gordoi ei feddyliau;
Ei fynwes fu'n hir yn chwareudŷ i ddiaflaid,
Y rhai ymloddestent ar frasder ei enaid;
Gwahanglwyf du Eden a ysai ei fywyd,
Cydwybod yn hepian, a'r cof oedd yn rhydlyd;
Ond pan ddo'i i sŵn udgorn arian Llangeitho,
A gwel'd Dwyfol lid yn ei wyneb yn tremio,
Cymylau cospfeichiog y nefoedd yn aros
Yn haen uwch ei ben fel tew leni y ddunos,
Diffygiai ei nerth, ac i bangfa lesmeiriol
Y syrthiai'n ddiatreg, a throi'n edifeiriol
A wnai at Waredwr, gan addef ei gamwedd,
A sobr weddio am hedd a thrugaredd;
Nid un, ac nid ugain, ond canoedd a welwyd
Yn gwelwi mewn iasau wrth feddwl am eilfyd;
O dan weinidogaeth seraphaidd Llangeitho
Y gwelwyd y miloedd mewn cyni yn wylo;
Fel corwynt yn ysgwyd coedwigoedd o dderw
Oedd treiddiol daranlais ein Rowlands wrth alw
Ar hen ystyfnigion y codwm i gymod,
A gochel dirboenau y llynclyn diwaelod;

Fel tonau dymchwelawl y môr yn ymddirwyn,
Nes copa y graig a lwyr ylchai y moryn,
Oedd anwrthwynebol bregethau Llangeitho;
O'r braidd nid ai ambell i adyn yn wallgo'
Wrth glywed darluniad cywirlym o'i nodwedd,
A'i gyflwr agored i ffrewyll dialedd.

Wedi treulio rhai blynyddau
I efrydu'r deg gair deddf,
Nes oedd eu cyhoeddi weithian
Wedi tyfu'n ail i reddf,
Dringai lechwedd bryn Calfaria,
Safai wrth ystordŷ'r Groes,
Ac agorai goffrau'r cariad
Weryd rhag trag'wyddol loes.

Wedi aros am dymhorau
Yn gwneyd ei safle ar Sina draw,
Yn brawychu pechaduriaid,
A'u bedyddio oll mewn braw,
Cyfnewidiodd ei esgynlawr,
A than arwydd iawnol waed,
Melus draethai wrth y miloedd
Am y noddfa yno gaed.

Nid hanerog yw gweinyddiaeth
Yr Efengyl fawr ei dawn,
Ond cyfuniad yw o foddion
A wna enaid llwm yn llawn;

Os archollir rhaid wrth feddyg,
Ac os lleddir rhaid bywhau,
Amod gras yw lladd y llygredd.
Cyn y cawn o'i rîn fwynhau.

Awgrymiadau Pugh, Blaenpenal,
Fu o fendith iddo'n awr;
D'wedai hwnw, 'Wedi llorio,
D'wed am y cyfodiad mawr;
'Nol ergydio y taranfyllt,
O ael Sina tro i'r Groes,
Ac esbonia i'r clwyfedigion
Am y balm liniara'u loes.'

Prif bwnc ei bregethau yn awr oedd Calfaria,
Chwareule ei ddoniau oedd ardal y Groes,
Y daran ddystawodd yn ymyl yr aberth,
A'r fellten ddifrodawl i'w lloches a ffoes;
Esboniai yn fedrus amodau trugaredd,
Agorai i weiniaid gostrelau y gwin,
Hen Sauliaid mewn pechod, a chewri mewn camwedd
A ddygwyd i deimlo effeithiau ei rîn.

Fel y dystyllia'r hwyrol wlith i lawr,
Er glwys ireiddio mynwes blodau'r ddôl,
Arllwysai nef ei gemau'n ffrydlif fawr,
Gan gludo môr o fwyniant yn eu côl;
Fel y blodeua'r anial dan y gwlaw,
Nes try y llenyrch diffaeth oll yn fyw,

Blaendarddai gwinllan gras—gwasgerid braw
  Euogion dan ddylanwad geiriau Duw.

Tân nefol y dwyfol wirionedd ddisgynodd,
Ei fraich anniffygiol Jehofah ddynoethodd,
A rhuthrai'r gwynt nerthol nes ymlid niwl anghred
I isaf diriogaeth carcharbwll du Abred;
Hen Gymru fynyddig. cartrefle'r archdderwydd,
Yn awr a ddychlamai dan swyn y wir grefydd;
O Fynwy i Fon, o'r gorllewin i'r dwyrain,
Acenion clodforedd a glŷwid yn adsain;
Nid crechwen annuwiaid mewn bydol ddigrifwch
Oedd yma, ond nodau a sain diolchgarwch;
Rhyw neuadd gyngherddol oedd y Dywysogaeth,
Yn dyrchu cydganau am rin iachawdwriaeth,
Yr oerflwng fynydd-dir yn swydd Ceredigion,
A droid yn gartrefle caniadau plant Seion;
Llangeitho, Llancwnlle, a'r llanau cym'dogol,
Adseinient gan beraidd emynau mawliadol.
Fy awen, rho dro i Langeitho am unwaith,
Cronicla effeithiau rhyfeddol y mawrwaith
Gyflawnwyd trwy offerynoliaeth y gwron,
Fu fel rhyw dywysog am yspaid yn Seion;
Nid seren ail raddol oedd gwrthddrych dy ganiad,
Ond un o fflamheuliau tânbeidiol nefol-wlad,
Neu un o gomedau y Duw Hollalluog
Yn gwasgar trwy 'r fro ei gwawldonau pelydrog:
Ymlidiai y gwyll—ar linellau ei wyneb
Y dawnsiai pelydrau Haul mawr trag'wyddoldeb;

CARDIFF UNIVERSITY * PRIFYSGOL CAERDYDD *

Cymylau pardduawl y foesol awyrgylch
Ysgubid fel mwlwg o gyrau y nengylch;
Disgynai pur wreichion y Dwyfol oleuni
I randir ansiriol hiliogaeth trueni;
Yn ngafael aurdlysau y cariad trag'wyddol
Canfyddid y miloedd yn diolch a chanmol.
I'w bwlpud ar foreu y Sabbath esgynai,
Ei wyneb dan urddau ysprydol ddysgleiriai,
Ni feiddiai ddod allan o'i fyfyr-ystafell
Ac entrych ei feddwl yn niwlog a thywell:
'Nid af,' oedd ei eiriau, 'O! rymus Dduw Israel,
Os na chaf wrth odrau dy wisgoedd ymafael.'
Nid cynt ymddangosai ar drothwy'r areithfa
Na welid byw gyffro yn enyn trwy 'r dyrfa:
Y miloedd wynebau gyfeirient mewn pryder,
Gan ddysgwyl am wledd o rawnsypiau'r Uchelder.
Ai fewn i fwngloddiau y cariad trag'wyddol,
A gwlawiai y perlau i'r miloedd cylchynol;
Darluniai yn gyntaf ddirywiad dynoliaeth,
Ac yna esboniai foeswersi achubiaeth.
'Nol dangos cwymp Eden a'i ddamniol arweddau,
Dynoethai y fall yn ei herch hudoliaethau;
Arllwysai ei ddoniau 'n llifeiriant rhaiadrawl
Ar ben du y bwystfil a'i fintai uffernawl;
Ac yna i fynydd y Benglog esgynai,
A'r dyrfa mewn nefol berlewyg ddilynai
I weled Oen Duw—y difai a'r dihalog—
Yn tywallt ei waed er achubiaeth yr euog;
Ei lais erbyn hyn feddai swyn anorchfygol,

A'i agwedd yn debyg i fôd haner nefol:
Wrth adrodd manylion y frwydr fythgofus,
Ymdorai fel hyn i ryw iaith orfoleddus,—

'Gorphenwyd! bechadur, mae'r ffordd wedi ei hagor
O bydew dy gamwedd i bebyll y gwawl
Palmantwyd tramwyfa dros wagle'r gagendor,
Ac weithian yn Ngwynfa mae genym ni hawl;
Farwolion, gafaelwch yn eich crog delynau,
Mae'n bryd i ni bellach i chwareu y tanau,
A tharo un ffrydlif o beraidd ganiadau,
Alawon clodforus mewn diolch a mawl.'

'Gorphenwyd! O! diolch mae Sina yn ddystaw,
A thwrf ei daranau a beidia yn awr;
Darfyddodd y brochus elfenau ymwriaw,
Tawelwch deyrnasa trwy lenyrch y llawr:
Gorphenwyd! mae ingoedd y Groes yn terfynu,
A gwaed calon Iesu yn gorphen dyferu,
A merch yr Amoriad yn rhydd wedi ei phrynu,
Ar dylwyth y codwm fe dorodd y wawr.'

Erbyn hyn 'roedd ocheneidiau
Fyrdd yn esgyn tua'r nef,
Cyffion pechod a ddatodid
Dan ei weinidogaeth gref;
Gwaeddai un, 'I Dduw bo'r diolch,'
Arall, 'Moliant byth i'r Oen,

Am waredu gwaethaf adyn
  Fel myfi rhag barnol boen.'

'Iddo Ef, yr hwn a'm carodd,
  Ac a'm golchodd yn ei waed,'
Meddai hen bechadur arall :—
  'Awn a chwympwn wrth ei draed ;'
Myrdd o leisiau a gaed yno
  'N cynghaneddu mawl i Dduw,
A chyn y terfynai 'r oedfa
  Codai llawer marw 'n fyw.

Cyrchfa 'r llwythau oedd Llangeitho,
  Yma cyfarfyddent hwy
I gydwledda ar fendithion
  Bythbarhaol iawnol glwy';
Gofid daear a'i thrafferthion
  A anghofiai 'r miloedd hyn,
Cleddid pob peth byd o'r golwg
  'N ymyl Aberth pen y bryn.

Fel hyn pan ar anterth ei fawr ddefnyddioldeb,
  A'r nefoedd yn arddel ei lafur a'i ddawn,
Yn diflin ergydio at gestyll anwiredd,
  A thraethu pur gynghor y Duwdod yn llawn ;
Dechreuai swyddogion Gehena ledgrynu,
  Ac ofni fod gofwy eu teyrnas ar ddod,
A galwyd cynadledd o ddiafl-henuriaid
  Er llunio mesurau i gymylu ei glod.

Cyflogwyd rhyw esgob i fod yn ddirprwywr,
Er dwyn i weithrediad y cynllun ar frys,
A thros y cynygiad pleidleisiai'r man ddiaflaid,
A phasiodd yn ddeddf gan flaenoriaid y llys;
'Roedd gormod o'r nef yn mhregethau'r hen Rowlands,
Rhaid bellach gael clo ar ffraethineb ei ddawn,
Ond druain o'u helbul ! nid deddf ac nid esgob
A wnai iddo dewi am rinwedd yr Iawn.

Cenad oddiwrth yr esgob
Foreu Sabbath ddaeth i'r Llan,
A throsglwyddai wys waharddol
I'r diwygiwr yn y fan,—
Nad oedd mwy i efengylu
Oddifewn i furiau'r lle,
Yn yr hwn y teimlodd ganwaith
Fod ei draed ar drothwy'r ne'.

Allan aeth yn friw ei deimlad
A'r minteioedd ar ei ol;
Ond cymerodd brenin Seion
Ei hoff genad yn ei gol;
Er i ddynol ddeddfau lwyddo,
I fylltio'n greulon ddorau'r ty,
Eurborth nef yn glau agorodd,
Llifai cysur oddifry.

Wedi taerion gymhelliadau,
Ar yr heol safai ef,
Ac anfonodd trwy ei ddagrau
Ddwys ochenaid tua'r nef;
Wylai'r dorf, gweddiai yntau,
Ad-ddechreuodd gydâ blas,
I gyhoeddi am rinweddau
Anchwiliadwy olud gras.

Os ydoedd esgobion meitredig yn ffromi,
Ac yn anfoddloni wrth genad yr hedd;
'Roedd Bugail ac Esgob eneidiau 'n gofalu
Na chawsai'u cynddaredd ei osod mewn bedd.
Yn fwy-fwy ar gynydd yr aeth ei ddylanwad,
Melusach o hyd y llefarai am Geidwad,
A buan cyneuwyd tân mawr y diwygiad,
A myrdd gyfranogai o arlwy y wledd.

Yn wir, rhyw gyfnod diwygiadol oedd
Holl yrfa Rowlands hyd ei arwyl ef;
Rhyw gyfres fawr o dywalltiadau gras
Oedd hanes bywyd y pregethwr hwn;
Ac er i ymraniadau rhyngddo ef
A rhai o'i frodyr, i gymylu peth
Ar hafddydd diwygiadol mawr ei oes,
Nid oedd ond fel yn rhoddi cyfle gwell
I wawl belydrau haul y ddinas fry,
I arllwys eu tanbeidrwydd yn eu nerth,

Er dwyn annuwiaid o guddfanau'r gwyll,
I rodio'n rhydd yn ngwawr digwmwl hwn—
Ac yn ei oleu gychwyn tua'r wlad—
Lle saif gorseddfainc Duw ; ac uwch ei phen
Y croga enfys cariad ; lle triga hoen,
A nwyfus iechyd o anfarwol ryw.

Nid hir bu Rowlands a'i ffyddloniaid cyn
Cael teml newydd i addoli Duw ;
Ac er i'r awdurdodau gloi y Llan,
Methasant gloi y dylanwadau i fewn ;
I'r deml newydd y *Shecina* ddaeth ;
A'r Duw fu'n cynal breichiau'i was yn hir
A safodd eto i'w gyfnerthu ef,
Ac ail fwynheid y gwleddoedd breision gynt ;
Carolau'r nef a glywid trwy y fro.

Yr oedd cewri diwygiadol
Gydâ Rowlands yn ei ddydd ;
Howell Harris, William Williams,
Peter Williams, fawr ei ffydd ;
A llu ereill o wroniaid
A ymladdent frwydrau'r nef ;
Ond maent heddyw ar aur belmynt
Gwynfa'n canu 'Iddo Ef.'

Prif sylfaenwyr Methodistiaeth
Ydoedd yr enwogion hyn,
Er corffori'r enwad hwnw

Hwy deithiasant fro a bryn ;
Y mae'r fesen blanwŷd ganddynt
Wedi tyfu'n dderwen gref,
A meithrinwyd dan ei changau
Lawer o anwyliaid nef.

Y benod ddiweddaf yn hanes ein bywyd,
Darllenir gan ereill adewir ar ol,
Fydd brwydr fawr angau tywysog y gweryd,
Pan ddaw dan ei arfau i'n cyrchu i'w gol ;
Ac felly am Rowlands, rhaid ydyw croniclo
Bu farw ! bu farw ,'! er cymaint ei ddawn,
Ond heddyw cydrodia yn nghwmni ei Brynwr,
A'i enaid o nefol ddedwyddwch yn llawn.

Bu farw ! ac oergri o grechwen cythreuliaid
Ysgubai trwy gonglau yr oror felldigaid !
Bu farw ! a galwyd yspïwyr y dalaeth,
Yn ol o'u gwibdeithiau ar archiad y penaeth,
Er uno mewn crechwen uffernol am gladdu,
Yr hwn fu mor ddewr yn rhyfela â'r fagddu :
Nid rhaid i chwi ddiaflaid ; er claddu y gweision
Mae'r Cadben yn fyw, ac yn Frenin ar Seion ;
Yn mlaen yr ä'r fyddin os collir y milwyr,
Er ystryw tywysog llywodraeth yr awyr ;
Daw Seion i fyny â'i phwys ar ei Phriod,
Yn ol ymrwymiadau y dwyfol gyfamod.

Rowlands enwog ! ofer fyddai
I un meidrol ar y llawr,
Geisio rhoddi gwan ddarluniad
O dy ardderchogrwydd 'nawr;
Mae'r dychymyg yn ymgolli
Wrth gyfeirio tua'r lan,
Ond hyderwn gwawria'r adeg
Cawn dy weled yn y man.

'Roedd yno ryw luoedd o rai a flaenasant,
Yn tyru i'th groesaw wrth byrth y gogoniant,
Y rhai argyhoeddwyd yn ngwres dy athrawiaeth,
Nes gwneyd iddynt gefnu ar lenyrch marwolaeth;
Eu llongyfarchiadau adseinient trwy Salem,
Wrth daro ton nodau molianus yr anthem.
Yn iach i ti mwyach, terfynodd dy adfyd,
Cei wledda yn heirdd ystafelloedd bro gwynfyd,
A rhodio'r ystrydoedd yn nghwmni'r Gwaredwr,
A'i wel'd yn ei nodwedd fel ffyddlon Eiriolwr.

O Dad ! anfon ddeuparth o'i yspryd i ninau,
I drechu pob gelyn a morio trwy angeu ;
Ac esgyn ar ddiwedd ein rhawd isddaearol,
I'th balas i wisgo yr urddau breninol.

BRYTHONFRYN.

ARGRAFFWYD GAN JOHN RICHARD DAVIES.

CARDIFF ✱ PUBLIC ✱ LIBRARIES ✱
CARDIFF UNIVERSITY ✱ PRIFYSGOL CAERDYDD ✱